# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | Swyddog y Gymraeg |
| **Yn adrodd i:** | Pennaeth Cyfathrebu |
| **Lleoliad** | Caerdydd |
| **Band Cyflog** | 3 |

## Disgrifiad Swydd

### Pwrpas y Swydd

Atebol i Bennaeth Cyfathrebu am fonitro cydymffurfiaeth Archwilio Cymru â'i Safonnau Iaith Gymraeg.

- Cyfrifol am gydlynu gweithgareddau Cymraeg ac adrodd ar ran y sefydliad.
- Prawf-ddarllen dogfennau a darparu cyfieithiadau byrion yn fewnol - megis testun ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, copi ar gyfer y we, datganiadau i'r wasg, llythyrau ac e-byst.

### Prif Ddyletswyddau

- Cyd-drefnu llif gwaith cymorth cyfieithu allanol ar gyfer archwilio Cymru a rheoli'r gydberthynas gyda chwmnïau cyfieithu allanol ac ymyrryd lle bo'n briodol.
- Cysylltu â chyfieithwyr allanol dan gontract fframwaith Archwilio Cymru i gael dyfynbrisiau, comisiynu gwaith cyfieithu a monitro cynnydd y prosiectau hyn.
- Cyfrifoldeb dirprwyedig am gyllideb cyfieithu a chyllideb hyfforddiant Cymraeg.
- Datblygu strategaeth sgiliau ieithyddol sy'n dwyn ynghyd amrywiol agweddau ar gydraddoldeb mewn dewis iaith yn y gwasanaeth a ddarperir, datblygiad staff a recriwtio.
- Sicrhau bod y cynnwys Cymraeg ar y wefan a'r wybodaeth Gymraeg ar y fewnrwyd yn gyfredol ac yn cydymffurfio â Safonnau Iaith Gymraeg.
- Gweithio gyda Rheolwr a Swyddog Gwasanaethau Busnes ar y broses dendro am gyfieithiadau yn unol â chanllawiau caffael.
- Gweithio gydag Adnoddau Dynol i ddatblygu a chyflawni cynllun dysgu Cymraeg Archwilio Cymru ar gyfer yr holl staff yn cynnwys rhai sy'n dechrau o'r newydd.

### Meysydd Canlyniadau Allweddol

- Cynllunio a chydlynu gofynion Iaith Gymraeg Archwilio Cymru a monitro gweithrediad Safonnau'r Gymraeg neu gynllun cyfatebol.
- Codi proffil ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg o fewn Archwilio Cymru a hyrwyddo Safonnau Iaith Gymraeg Archwilio Cymru, Safonnau'r Gymraeg, neu'r rhai sy'n gyfwerth.
- Darparu gwybodaeth reoli ar gynnydd y Safonnau yn fewnol i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, Pennaeth Cyfathrebu, ac i Gomisiynydd y Gymraeg.
- Dilyn datblygiadau deddfwriaethol, strategol a thechnegol mewn perthynas â safonau'r Gymraeg a'r diwydiant cyfieithu.
- Bod yn bwynt cyswllt cyntaf i Archwilio Cymru gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
- Ymdrin ag unrhyw gwynion Cymraeg a dderbynnir gan gleientiaid neu aelodau o'r cyhoedd ynghylch Archwilio Cymru.
- Bod yn esiampl o werthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru.

| Cyffredinol |
| --- |
| **Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiadau** |
| Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau'n diffinio'r ffordd yr ydym yn gweithio a'r modd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd ein nodau. Mae ein pobl ni i gyd yn ymrwymedig i arddangos ein gwerthoedd a'n hymddygiadau, fel y gallwn weithio'n effeithiol gyda'n gilydd a gwneud penderfyniadau da. Maent yn gymorth inni fod y gorau y gallwn fod ac yn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r profiadau cywir yn y lle cywir. Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau wedi eu cynllunio gan y staff i fod o gymorth i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu a datblygu diwylliant o hyfforddi er mwyn sicrhau amodau i ffynnu er budd llwyddiant y sefydliad. Gofynnwn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu'n llawn i feithrin diwylliant cadarnhaol a'n cynorthwyo i dyfu drwy fyw ein gwerthoedd a'n hymddygiadau. |
| **Cyfrinachedd a Diogelwch Gwybodaeth** |
| Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn ymwybodol bob amser o bwysigrwydd cadw cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth y mae'n ei chasglu wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mewn llawer o achosion bydd hyn yn cynnwys mynediad at wybodaeth bersonol sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth. Rhaid i ddeiliad y swydd drin yr holl wybodaeth, boed yn gorfforaethol neu'n wybodaeth cleientiaid, mewn ffordd gynnil a chyfrinachol yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 a pholisi'r sefydliad. Ystyrir torri cyfrinachedd o'r fath yn drosedd ddifrifol fydd yn arwain at ddisgyblu, sy'n agored i ddiswyddo a/neu erlyniad o dan y ddeddfwriaeth statudol gyfredol (Deddf Diogelu Data) a Pholisi Disgyblu Archwilio Cymru. |
| **Cydraddoldeb** |
| Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn gosod dyletswydd gadarnhaol ar gyrff cyhoeddus, fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus, i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae naw nodwedd warchodedig: oedran; anabledd; newid rhyw; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Archwilio Cymru yn ymrwymedig i sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail unrhyw un o'r uchod. I'r diben hwn, mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb ac mae cyfrifoldeb ar bob gweithiwr i gyfrannu at ei lwyddiant. |
| **Iechyd a Diogelwch** |
| Mae gan holl weithwyr y sefydliad ddyletswydd gofal statudol am eu diogelwch personol eu hunain a diogelwch personol eraill y gall eu gweithredoedd neu eu hesgeulustod effeithio arnynt. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd gydweithredu â'r rheolwyr i alluogi'r sefydliad i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ei hun a rhoi gwybod am unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu offer diffygiol. Rhaid i ddeiliad y swydd gadw at bolisïau Rheoli Risg y sefydliad, Iechyd a Diogelwch a pholisïau cysylltiedig. |
| **Archwiliadau Diogelwch** |
| Mae pob gweithiwr yn destun gwiriad diogelwch sylfaenol fel rhan o'i archwiliad cyn cyflogaeth. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys prawf hunaniaeth a chymwysterau. At hynny, mae'r holl staff mewn rolau cymwys yn destun trefniadau fetio diogelwch hyd at lefel diogelwch CTC (gwiriad gwrthderfysgaeth). |
| **Urddas yn y Gwaith** |
| Mae'r sefydliad yn condemnio pob math o fwlio ac aflonyddu ac mae'n ymroi i hyrwyddo gweithle lle mae gweithwyr yn cael eu trin yn deg a chydag urddas a pharch yn ddiduedd. Gofynnir i bob aelod o staff adrodd am unrhyw fath o fwlio ac aflonyddu wrth ei Reolwr Llinell neu wrth un o Gyfarwyddwyr y sefydliad. Ni oddefir ymddygiad amhriodol yn y gweithle a chaiff ei drin fel mater difrifol o dan bolisi Urddas yn y Gwaith Archwilio Cymru. |

| Cyffredinol |
|---|
| **Y Gymraeg** |
| Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth dwyieithog i bawb sy'n dymuno ei ddefnyddio. Hoffem felly annog yn arbennig geisiadau gan unigolion sydd â sgiliau iaith Gymraeg i'n helpu i gyrraedd y nod hon.<br>Bydd pob disgrifiad swydd yn nodi a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol neu ddymunol. Os byddwch yn llwyddiannus ac nad oes gennych sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd, gallwn eich cynorthwyo i ddysgu Cymraeg os byddwch yn dymuno. |

| Manyleb Person | |
|---|---|
| **Gofynion** | **Hanfodol neu Ddymunol** |
| **1. Cymwysterau** | |
| 1.1 Siaradwr Cymraeg rhugl. | Hanfodol |
| 1.2 Addysg hyd at lefel Gradd.<br>Gradd yn Gymraeg. | Hanfodol<br>Dymunol |
| 1.3 Achrediad cyfieithu neu ymrwymiad i ddysgu. | Dymunol |
| **2.** | |
| 2.1 Y gallu i weithio mewn dull trefnus gan reoli amser yn dda ynghyd â sgiliau cyd-drefnu. | Hanfodol |
| 2.2 Y gallu i feddwl yn greadigol a chynhyrchu syniadau ar gyfer hyrwyddo Archwilio Cymru mewn ffordd gadarnhaol. | Hanfodol |
| 2.3 Sgiliau cyfathrebu ardderchog, yn ysgrifenedig ac ar lafar. | Hanfodol |
| 2.4 Sgiliau rhyngbersonol da gyda'r gallu i ddelio â staff yn gyfrinachol ar bob lefel. | Hanfodol |
| **3.** | |
| 3.1 Profiad o waith cyfieithu ysgrifenedig o Saesneg i Gymraeg. | Hanfodol |
| 3.2 Profiad o waith ar y we. | Hanfodol |
| 3.3 Profiad o brawf-ddarllen dogfennau'n fanwl gywir. | Hanfodol |
| | |
| 4.1 Talu sylw'n dda i fanylion. | Hanfodol |
| 4.2 Agwedd hyblyg tuag at waith. | Hanfodol |
| 4.3 Hunanymwybyddiaeth a gwybodaeth am ei gyfyngiadau ei hun a phryd a sut i ofyn am gymorth ac adborth. | Hanfodol |
| 4.4 Hunanreolaeth effeithiol, parod i newid, a'r gallu i reoli nifer o dasgau yr un pryd. | Hanfodol |

| | |
|---|---|
| 4.5 Ymwybyddiaeth o fod yn rhan o dîm: gallu deall gofynion a gwerthoedd sy'n gwrthdaro; y gallu i adnabod a monitro anghenion a boddhad cleientiaid. | Hanfodol |
| 4.6 Gweithio gyda pheth ymreolaeth ac ychydig iawn o oruchwyliaeth ac yn gyfrifol am flaenoriaethu ei faich gwaith ei hun ar y cyfan, gan uwch-gyfeirio at Bennaeth Cyfathrebu fel bo'n briodol. | Hanfodol |
| **5.** | |
| 5.1 Hunanymwybodol ac yn esiampl o werthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru. | Hanfodol |
| 5.2 Y gallu i weithio'n hyblyg a'r tu allan i oriau swyddfa arferol os bydd angen. | Hanfodol |
| 5.2 Ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i'r trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch. | Hanfodol |
| 5.3 Ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. | Hanfodol |
| 5.4 Y gallu i weithredu o fewn Arddull Tŷ a dogfennau canllaw Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn sicrhau cysondeb wrth gyflwyno negeseuon, gan gyfeirio at Bennaeth Cyfathrebu lle bo'n briodol. | Hanfodol |

| Maes sgiliau | Hanfodol |
|---|---|
| **Siarad a Gwrando** | Cynnal ac arwain cyfarfodydd a thrafodaethau dwfn a chymhleth ynglŷn â'n gwaith yn Gymraeg. |
| **Darllen** | Deall adroddiadau a gohebiaeth gymhleth a chyfleu'r cynnwys i eraill gan gynnwys rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. |
| **Ysgrifennu** | Cyfieithu dogfennau a llythyrau i safon uchel o ran ystyr a gramadeg. |